

TOP TIPS I'CH HELPŪ ARBED YNNI AC ARIAN Y NADOLIG YMA



DATHLU HEFO'N GILYDD!



Os ydych chi'n gallu, beth am wahodd pobl draw neu ymuno hefo eraill ar gyfer y dathliadau? Mae hyn yn cwtogi ar ddefnydd o ynni - llai o gost gwresogi, goleuo a

choginio...a mwy o help yn y gegin! Gofynnwch i bobol ddod â rhywbeth hefo nhw tuag at y bwyd, i rannu'r gost rhyngoch chi. Ydych chi yn paratoi'r cinio? Yna mae'n hollol deg gofyn i rhywun arall ddod â phwddin.

TEITHIO GYDA'CH GILYDD

Teithio i barti neu ddigwyddiad 'Dolig? Mae rhannu lifft hefo rhywun arall sy'n mynd i'r un lle yn golygu arbed tanwydd ac arian - a chwmni difyr ar gyfer y daith!




DIFFODDWCH OLEUADAU NADOLIG PAN NAD OES NEB YN EU GWELD!

Does 'na ddim pwynt talu i oleuo eich coeden Nadolig pan fydd pawb yn cysgu! Mae plygiau amseru yn gymharol rhad i'w prynu ac yn ffordd handi o wneud yn siŵr nad oes goleuadau ymlaen yn ddi-angen, yn enwedig os ydych chi yn un o'r rhai sy'n pendwmpian ar y sofa ar ôl cinio Nadolig! Gallwch osod amser diffodd awtomatig e.e. goleuadau'r goeden.



DIFFODDWCH Y TELEDU!

Rydyn ni yn y DG yn gwyllo mwy o deledu dros y Nadolig nag ar unrhyw adeg arall. Felly, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n diffodd y teledu pan nad oes neb o'i flaen! Neu beth am wneud yr ymdrech eleni i chwarae gemau...



Cofiwch wnewch yn siŵr bod pob dyfais fel setiau teledu, consolau gemau a chyfrifiaduron wedi'u diffodd yn llwyr ac nid ar 'standby', sydd yn gwastraffu ynni.



OS OES GENNYCH LOND TŶ O BOBL - TROWCH Y GWRES I LAW

Y mwya' o bobl sydd yn eich tŷ - y cynhesa fydd hi! Dim angen y gwres mor uchel nag ymlaen mor hir.

Ceisiwch droi'r gwres i lawr un neu ddau radd pan fydd gennych bobl acw - mi wnaiff hyn arbed ar eich biliau ynni ac mae'n siŵr na wnewch chi hyn yn oed sylwi ar y gwahaniaeth gwres!



GWISGWCH EICH SIWMPER NADOLIG!

Os na wisgwch chi eich siwmperi, 'sanau a sliperi Nadolig rŵan, pryd wnewch chi?! Ac maen nhw yn bethau cynnes felly wisgwch nhw, neu wisgwch fwy a throi'r gwres i lawr - arbed ynni ac arian! Be' well?!



TOP TIPS I'CH HELPŪ ARBED YNNI AC ARIAN Y NADOLIG YMA




CADWCH EICH PAPUR LAPIO

Yn anffodus, oherwydd y leinin plastig neu ffoil, allwch chi ddim fel arfer ailgylchu papur lapio. Mae hefyd yn gallu bod yn ddrud. Felly, eleni, agorwch eich anrhegion yn ofalus, a chadw'r papur lapio... Dyna chi - barod ar y flwyddyn nesaf!



COGINIWCH HEFO CAEAD - BOB TRO!


Gall caead ar sosban olygu tua 10% yn llai o ynni wrth goginio! Mae hefyd yn torri ar faint o leithder sy'n cael ei greu, ac yn ei dro yn atal anweddu, lleithder a llwydni. Dim rheswm i beidio rhoi caead arni!



DANGOSWCH GARIAD Y TYMOR AT EICH MICRODON, POPTY ARAF, NEU FFRIWR AER

Mae'r rhain i gyd yn llawer mwy effeithlon o ran ynni na phopty trydan - gan arbed arian oddi ar eich bil ynni. Ond dim ond os nad ydi'r prif bopty ymlaen yn barod wrth gwrs - does 'na ddim pwynt gwneud tatws rhost mewn ffriwr aer os ydi'r popty trydan ymlaen ar gyfer coginio'r twrci.

Os yn defnyddio'r popty y Nadolig yma, triwch goginio pob dim yr un pryd yn lle rhoi'r popty ymlaen droeon. Hefyd, peidiwch ag agor drws y popty o hyd er mwyn cadw'r gwres y tu mewn, a defnyddio llai o ynni i gynnal y tymheredd cywir.



BWYD BLASUS DROS BEN!

Mae bwyd dros ben yn gallu bod mor flasus â 'r wledd ei hun dros y 'Dolig! Yn y DU, rydyn ni yn gwastraffu cyfystyr â ddwy filiwn o dwrciod - beth am newid hyn?

Coginiwch yr hyn sydd angen arnoch chi yn unig, a pheidiwch â gwastraffu unrhyw beth sydd dros ben, ac felly arbed arian ac egni. Mae yna lwyth o ryseitiau ar gyfer bwyd dro ben ar ôl cinio Nadolig - be sydd well na chyri twrci ar Dydd San Steffan neu bastai llysiau dros ben?! Storiwch unrhyw fwyd dros ben yn yr oergell a rhewi unrhyw beth na fyddwch chi'n ei fwyta o fewn dau ddiwrnod. Cofiwch ail-dwymo nes bod y bwyd yn chwilboeth.

